CWESTIYNAU CYFFREDIN

Pa fath o bynciau mae HTW yn eu harfarnu?

Mae ein cylch gwaith yn cwmpasu unrhyw dechnoleg neu fodel gofal a chymorth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol nad yw'n feddyginiaeth.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- Dyfeisiau meddygol (gan gynnwys technolegau iechyd digidol)
- Diagnosteg
- Gweithdrefnau
- Ymyriadau
- Offer
- Modelau gofal gwahanol ar gyfer cefnogi teuluoedd, plant, oedolion a'r gweithlu.

Yng Nghymru, mae arfarnu meddyginiaethau yn cael ei wneud naill ai gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) neu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Pa feini prawf sydd yn rhaid i bynciau eu bodloni i fod yn addas i gael eu harfarnu gan HTW?

Mae'n rhaid i bynciau fodloni meini prawf penodol i fod yn addas i'w harfarnu. Byddwn yn ystyried pwnc i'w arfarnu os:

- Yw'n dechnoleg neu'n fodel o ofal a chymorth sy'n disgyn o fewn ein cylch gwaith,
- Oes ganddo'r potensial i effeithio'n uniongyrchol ar gleifion, pobl sy'n cael mynediad at ofal cymdeithasol, neu ofalwyr
- Oes ganddo unrhyw gymeradwyaeth reoleiddiol briodol yn y DU, neu y disgwylir iddo gael cymeradwyaeth reoleiddiol yn y DU o fewn y 12 mis nesaf
- Oes digon o dystiolaeth ar gael ar y dechnoleg neu'r model o ofal a chymorth yn barod

Pa fath o bynciau fydd ddim yn addas i'w harfarnu?

Ni fydd pwnc fel arfer yn cael ei ystyried yn addas i'w arfarnu os:

- Yw'n feddyginiaeth,
- Nad yw ei ddefnydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ganlyniadau, lles na phrofiad cleifion neu bobl sy'n cael mynediad at ofal a chymorth,
- Yw'n dal i fod yn brototeip neu'n dal i gael ei ddatblygu,
- Nad oes digon o dystiolaeth i hwyluso arfarnu.

Er na fyddem fel arfer yn ystyried pynciau sy'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf gwahardd hyn yn addas i gael eu harfarnu'n llawn gan HTW ac at gynhyrchu canllawiau cenedlaethol, efallai y

byddwn yn dal i gynhyrchu Adroddiad Archwilio Pwnc (TER), a fyddai'n rhoi trosolwg uchel o dystiolaeth i randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Pa fath o dystiolaeth sydd ei hangen ar HTW i bwnc fod yn gymwys i'w arfarnu?

Rydym yn ystyried pob math o dystiolaeth e.e. tystiolaeth o'r byd go iawn. Fodd bynnag, rydym yn rhoi blaenoriaeth i dystiolaeth sy'n cymharu effeithiolrwydd technoleg neu fodel o ofal a chymorth gydag opsiynau triniaeth neu ofal cyfredol, ac sy'n mesur effeithiolrwydd mewn ffordd mor ddiduedd â phosibl. Gellir cael y dystiolaeth hon drwy ddefnyddio hap-dreialon rheoledig neu trwy gasglu tystiolaeth o'r byd go iawn sydd yn asesu'r dechnoleg sydd yn cael ei defnyddio.

Byddwn yn blaenoriaethu tystiolaeth o astudiaethau eilaidd hefyd, fel adolygiadau systematig neu asesiadau o dechnolegau iechyd sydd yn cael eu gwneud gan asiantaethau eraill, lle mae'r rhain ar gael.

Ydy HTW yn gallu fy helpu i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnaf i gyflwyno pwnc i'w arfarnu?

Mae HTW yn cynnig Gwasanaeth Cynghori Gwyddonol, a allai helpu datblygwyr technoleg ac arloeswyr i gynhyrchu tystiolaeth a dangos sut mae eu cynnyrch yn ateb anghenion comisiynwyr gofal, darparwyr gofal, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n gallu nodi bylchau mewn tystiolaeth, cefnogi gweithgareddau cynhyrchu tystiolaeth, ac arbed amser ac adnoddau. Codir ffi am y gwasanaeth, ac mae ar gael ar gyfer datblygwyr technoleg o bob maint.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn cyflwyno pwnc i gael ei arfarnu gan HTW, ond nid yw'n cael ei dderbyn ar y rhaglen waith?

Os nad yw pwnc yn bodloni ein meini prawf cymhwysedd, efallai y byddwn yn ei gyfeirio at ein Grŵp Cyfeirio. Cyn gwneud hynny, rydym yn gofyn am ganiatâd iddo gael ei gyfeirio gan y cynigydd pwnc.

Os yw'r cynigydd pwnc yn rhoi caniatâd, byddwn yn anfon manylion y pwnc a gynigir at y Grŵp Cyfeirio, gyda chais i ymateb mewn tair wythnos, a bydd y Grŵp Cyfeirio yn rhoi unrhyw awgrymiadau i ni ar gyfer y camau nesaf posibl ar gyfer y cynigydd pwnc. Rydym yn coladu'r sylwadau hyn, ac yn eu cyflwyno i'r cynigydd pwnc. Efallai na fydd y Grŵp Cyfeirio yn gallu darparu awgrymiadau ar gyfer gweithredu pellach os nad yw'r pwnc yn dod o fewn cwmpas aelodau unigol.

Efallai y byddwn yn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael drwy ein Gwasanaeth Cynghori Gwyddonol hefyd.